


GIG CYMRU NHS WALES | Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda University Health Board

*Elusennau Iechyd Hywel Dda yw elusen swyddogol Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda.*

**Mae partneriaeth gyda'n helusen GIG yn cynnig potensial enfawr ar gyfer darparu gwerth i'ch rhaglenni cyfrifoldeb cymdeithasol corfforaethol. Gallwn eich helpu gydag ymgysylltiad gweithwyr, cyhoeddusrwydd, a hyrwyddo eich ymdrechion dyngarol yn ein hardal leol.**

## Cyfleoedd i'ch busnes gefnogi

# Apêl Gerddi Ysbyty Tywysog Philip

**Nod Apêl Gerddi Ysbyty Tywysog Philip yw codi £100,000 i greu dwy ardd therapiwtig newydd yn yr Ysbyty. Bydd y gerddi newydd ar gyfer:**

- **Ward Mynydd Mawr, uned adsefydlu gofal henoed 15 gwely**
- **Ward Bryngolau, uned iechyd meddwl oedolion hŷn 15 gwely.**

**Mae'r wardiau wedi'u lleoli drws nesaf i'w gilydd ar lawr gwaelod yr ysbyty ac mae ganddynt fynediad i le awyr agored caeedig. Fodd bynnag, nid yw'r lle hwn yn cael ei ddefnyddio ar hyn o bryd ac nid yw'n addas ar gyfer cleifion. Bydd y gerddi newydd yn cefnogi adferiad ac yn hybu lles trwy ddarparu mannau diogel, llawen ac iachusol lle gall ein cleifion hŷn fwynhau awyr iach, ymarfer corff a theimlo'n agos at natur. Bydd y gerddi hefyd yn darparu amgylchedd tawel i staff ac ymwelwyr.**

## Mae nifer o ffyrdd y gall eich busnes gefnogi'r Apêl

**Cyfrannwch**

Gwnewch gyfraniad i'r Apêl a helpwch i wneud gwahaniaeth cadarnhaol i iechyd, lles a phrofiad cleifion a staff y GIG yn Ysbyty Tywysog Philip.

**Elusen y flwyddyn**

Gwnewch ni yn elusen y flwyddyn – ffordd wych o gael eich holl weithlu ynghyd i ddatblygu cyfres o weithgareddau codi arian.

**Digwyddiadau tîm**

Mae gennym leoedd am ddim ar gael i godwyr arian mewn nifer o ddigwyddiadau trwy gydol y flwyddyn - beth am ymuno â thîm a chreu profiad adeiladu tîm gwych wrth godi arian ar gyfer yr Apêl?

### Dringo Uchelfannau Newydd




Elusennau Iechyd Hywel Dda oedd Elusen y Flwyddyn Prifysgol Aberystwyth yn 2022–23. Cafodd staff a myfyrwyr amser gwych yn codi arian i'w hysbyty lleol trwy gyfres o ddigwyddiadau gan gynnwys Diwrnod Siwmper Nadolig, taith gerdded noddedig a sialens ddringo Tri Chopa Cymru.

## Creu digwyddiad

Gallech hefyd greu eich digwyddiadau tîm eich hun i godi arian ar gyfer yr Apêl – beth am gwis tîm, picnic neu ddiwrnod dillad eich hunain?

## Rhoddion anariannol

Rhowch eich amser drwy wirfoddoli, neu rhoddwch eitemau a fydd yn helpu i wneud y gerddi newydd yn lleoedd arbennig a deniadol i fod ynddynt.

## Rhoi drwy'r gyflogres

Ymunwch â'n cynllun rhoi drwy'r gyflogres Pennies from Heaven a rhowch gyfle i'ch gweithwyr gyfrannu ambell geiniog o'u cyflog misol i'n Hapêl

## Dod â phobl at ei gilydd



Rhoddodd Barclays 20 iPad i alluogi cleifion Hywel Dda i gadw mewn cysylltiad â'u teulu tra yn yr ysbyty. Roedd yr iPads hefyd yn cefnogi aelodau teulu i fynychu apwyntiadau cleifion allanol yn rhithwir, ac yn cefnogi cyfarfodydd grŵp rhithwir o fewn gwasanaethau iechyd meddwl ac anableddau dysgu.

## Cael hwyl!




Cododd Tregroes Waffles dros £1,000 ar gyfer ein hymgyrch y Cronfa Dymuniadau drwy gynnal Diwrnod Hwyl i'r Teulu. Mae'r Gronfa Dymuniadau yn creu eiliadau hudolus i blant a phobl ifanc â chyflyrau sy'n cyfyngu ar fywyd ac sy'n bygwth bywyd a'u teuluoedd. Roedd y digwyddiad yn llawn gweithgareddau hwyliog i'r gymuned leol gan gynnwys adloniant plant, becws, barbiciw a pherfformiadau byw. Yn anad dim, daeth rhai o'n cleifion ifanc a'u teuluoedd i fynychu – a chawsant amser bendigedig!

**Os hoffech drafod cyfleoedd i gefnogi Apêl Gerddi Ysbyty Tywysog Philip, beth am gysylltu? Byddem wrth ein bodd yn clywed gennych!**

**www.elusennauiechydhyweldda.org.uk**

**01267 239815 / codiarian.hyweldda@wales.nhs.uk**

Registered with/Cofrestrwyd gyda'r FUNDRAISING REGULATOR RHEOLEIDDIWR CODI ARIAN

Rhif elusen gofrestredig 1147863